YSGOL BRYNREFAIL

GWAITH DYLUNIO A THECHNOLEG
LEVEL A

Byddai Richard Lloyd Jones wrth ei fodd yn eistedd yn hedd y gadair hardd hon sydd o waith prosiect lefel A ac yn perthyn i Cai Jones.

Dechreuodd Cai ei waith trwy ysgrifennu crynodeb i'r bwrdd arholi yn amlinellu ei fwriad i greu cadair pren yn seiliedig ar gynlluniau Celtaidd. Bu llawer o waith ymchwil hefyd ar batrymau Celtaidd cyn gosod yr oll ar bapur yn gynllun gorffenedig. Tra yr oedd hyn i gyd yn digwydd yr oedd y coed y bwriadai ddefnyddio yn sychu dros gyfnod o dri mis. Yna bu rhaid gwneud y gadair ac fe gwblhawyd y gwaith mewn chwe wythnos - camp yn wir!

Mi fyddwn i'n hoffi betio nad oes gan Richard gadair sydd â silff ynddi i ddal ei banad te na bwrdd bach i ddal ei blât o fara brith sydd a'i gartref dan sedd y gadair.

Mi fyddwn i'n hoffi betio nad oes gan Richard gadair sydd â silff ynddi i ddal ei banad te na bwrdd bach i ddal ei blât o fara brith sydd a'i gartref dan sedd y gadair.